# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION CYFARFOD 6ed TACHWEDD 2018

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Troedyraur ar nos Fawrth, 6ed Tachwedd yn Neuadd Rhydlewis.

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng Julie Davies<br>Cyng Teify Evans<br>Cyng Evan John Jones<br>Cyng Emyr Jones<br>Cyng Ceri Jones | Cyng Mark Davies<br>Cyng Maldwyn Lewis<br>Cyng Owenna Davies<br>Cyng Eirian James |
| **Ymddiheuriadau** | Eleanor Colbourne | Cyng Llŷr Evans |
| **Clerc** | Yn absenoldeb y Clerc cymerwyd y cofnodion gan y Cyng Mark Davies) | |

Cyn dechrau'r cyfarfod, roedd y Cyngor eisiau estyn eu cydymdeimlad at deulu Blaenafon, Ffostrasol am y trychineb diweddar. Danfonwyd cerdyn o gydymdeimlad at y teulu ar ran y Cyngor gan y Cyng Owenna Davies.

Rhoddodd y cyngor croeso cynnes i'r cynghorydd newydd - Cyng Ceri Jones

| Eitem agenda | Gweithredu | Gan bwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| **1. Derbyn ymddiheuriadau** | Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Clerc a'r Cyng Llŷr Evans. | | |
| **2. Cadarnhau cofnodion** | Cynigiwyd gan y Cyng Emyr Jones ac eiliwyd gan y Cyng Ifan John fod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir. | | |
| **3. Datgan diddordeb** | Datgelodd y Cyng Emyr Jones ddiddordeb mewn un eitem ar yr agenda sef eitem rhif 8 – Cynllunio A180986; Llwydcoed, Coedybryn.<br>Fe wnaeth lofnodi'r ffurflen bwrpasol. | | |
| **4. Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion** | Roedd dau diffibriliwr wedi cyrraedd - maent gyda'r Cyng Maldwyn Lewis. Nid oedd y bocsys wedi cyrraedd o hyd, ond pan fyddant wedi cyrraedd bydd y Cyng Maldwyn Lewis yn ei rhoi i fyny yn ardal Brongest (y bocs i'w leoli ger hysbysfwrdd y cyngor cymuned) a Maesllyn (ar y wal lle mae'r hysbysfwrdd - hwn i'w gadarnhau gan berchennog yr adeilad) | | |
| **5. Materion y Cynghorydd Sir** | • Cyfarfod agored i'r cyhoedd i'w gynnal yn Neuadd Llwyncelyn ar 12/11/18 o 12:30 ymlaen i drafod grantiau sydd ar gael am insiwleiddio, a boiler newydd fel cymorth i gynhesu cartrefi i'r bregus.<br>• Cyfarfod agored am leihau trosedd i'w cynnal ym Mhenmorfa am 14:00 - 15fed Tachwedd 2018<br>• 'Lucy's Law' – pobl sy'n bridio cŵn ac yn gwerthu cŵn i siopau anifeiliaid anwes. Mae'r Cyngor Sir yn cefnogi'r ymgais yn llawn.<br>• Ymgynghoriad Hywel Dda dydd Mawrth diwethaf | Cyng Maldwyn Lewis<br><br>Clerc | Tachwedd<br><br>Tachwedd |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (30/10/28)– parthed ysbyty newydd.  Nodwyd fod ysbyty newydd yn debygol o gael ei hadeiladu, ond gallai gymryd hyd at 20 mlynedd.<br>• Safle gwastraff Rhydeinon – ar agor 3 diwrnod yr wythnos Dydd Mercher, Sadwrn, a Sul rhwng 10:00yb a 17:00yh. Bydd y bydd y safle ar gau rhwng 30/11/18 hyd 5/12/18 er mwyn neud gwelliannau i'r safle.<br>• Cyfarfod llifogydd i'w chynnal yng Ngwesty'r Porth nos Fercher 7/11/18 i gwrdd â rheini sydd wedi dioddef o lifogydd yn ystod y cyfnod diweddar.<br>• WASBI - Trafodaeth am fenywod sydd wedi geni yn y 1950'au, Protest wedyn am yr hawliau. Cyngor yn cefnogi'r ymgyrch | Cyng Maldwyn Lewis | |
| **6. Gohebiaeth** | • Diwrnod Hawliau i Gofalwyr - i'w roi ar y safle we<br>• Hysbyseb 111 – gwybodaeth yn unig, iw roi ar y safle we.<br>• Cyrsiau Un Llais Cymru, Cynghorwyr i gyd i ddarllen yr ohebiaeth ac i nodi diddordeb am y cyrsiau y maent yn dymuno mynychu. | Clerc | Ar unwaith |
| **7. Ariannol** | Angen Trosglwyddo £5000 i'r cyfrif cyfredol<br><br>Talwyd y sieciau canlynol<br>• HMRC - £87.60<br>• Tâl y Clerc - £350.02<br>• Ashmole & Co - £76.80<br>• Swyddfa Awdit Cymru - £246.50 | | |
| **8. Cynllunio** | A180956 - Erection of building for processing distillery products - Glynhynod Farm. Pawb yn gytûn gan ei fod yn fusnes sefydlog ers sawl blwyddyn, ac yn ehangu eu busnes llwyddiannus yn yr ardal<br><br>A180986 - Llwydcoed, Coedybryn - pawb yn gytûn. Fyddai'r cais yma, petaen cael ei dderbyn, yn gwella golwg a safon y tŷ a hefyd y pentref ac yn rhoi'r cyfle i gadw pobl leol yn y pentref.  Hefyd, fod yr adeilad yn aros yn y teulu. Gofynnir os byddai modd i'r perchennog rhyddhau darn o dir er mwyn sefydlu llwybr troed er lles y gymuned<br>(Yn ystod trafodaeth y cais yma, mi adawodd y Cyng Emyr Jones) | Clerc<br><br>Clerc | Ar unwaith<br><br>Ar unwaith |
| **9. Derbyn y Cyfansoddiad** | Roedd y Cynghorwyr i gyd wedi cael siawns i ddarllen trwy'r cyfansoddiad, a derbyniwyd yn swyddogol | | |
| **10. Derbyn yr Asesiad Risg** | Roedd y Cynghorwyr i gyd wedi cael siawns i ddarllen trwy'r asesiad risg, a derbyniwyd yn swyddogol | | |
| **11. Trosolwg Ariannol** | Gadael tan y cyfarfod nesaf.<br>Ffurflen Mandate Natwest wedi llofnodi gan Cyng Mark Davies, Cyng Ceri Jones, Cyng Julie Davies, Cyng Teifi Evans | | |
| **12. Polisi Iaith** | Cyflwynwyd Cyng Owenna Davies Polisïau Iaith y Cyngor Sir; Cyng Maldwyn Lewis i'w adolygu | Cyng Maldwyn Lewis | 4/12/18 |

Draft

| | | | |
|---|---|---|---|
| **13. Anghenion Ardal** | Golau Stryd allan yn Ffostrasol. Clerc i gadarnhau'r rhif, ai cofnodi gyda'r cyngor.<br><br>Cerrig man wedi llusgo i ben palmant gerllaw Neuadd Ffostrasol. Clerc i ddanfon llathr wrth y Cyngor Cymuned i'r ddau dŷ.<br><br>Angen glanhau'r safle bws gerllaw'r siop yn Ffostrasol<br><br>Dwy ddafad wedi cael ei gafael mewn sach yn mynedfa'r goedwig ger y mast yn Ffostrasol. Cyng Maldwyn Lewis i roi cwyn swyddogol<br><br>Pibell i'w glanhau yn Coedybryn; clerc i siarad gyda Cyng Julie Davies am fanylion.<br><br>Angen Llwybr Troed yn Coedybryn - rhwng y Neuadd ar Sgwâr<br><br>Llinellau melyn i'w osod yn Coedybryn<br><br>Arwyddion Maesllyn wedi'i dwyn – angen rhai newydd<br><br>Lefel dŵr yr afon yn Rhydlewis bron a gorlifo – angen cadw llygaid barcud ar hyn. Angen torri cloddiau ger yr afonydd i atal gwneud y broblem yn waeth.<br><br>Angen glanhau'r 'gravel trap' yn Brongest<br><br>Arwydd Penrhiwpal wedi torri yn ystod storm Callum – angen arwydd newydd | Clerc<br><br>Clerc<br><br>Cyng Maldwyn Lewis<br><br>Cyng Maldwyn Lewis<br><br>Clerc | |
| **14. Safle we** | Trafferthion diweddar, dogfennau anghywir ar y wefan. Mae'r dogfennau yn nawr wedi'i cywiro<br><br>Mae angen i'r cynghorwyr i gyd i adolygu'r wefan, ac i'w drafod yn y cyfarfod nesaf<br><br>Angen y dogfennau canlynol ar y wefan:<br>• Phone 111<br>• Manylion Cyswllt mewn argyfwng<br>• Lluniau o leoliadau diffibrilwyr sydd yn yr ardal<br><br>Mae angen i bob dogfen bod yn format .pdf, a dim dogfennau sy'n gallu cael ei altro. | | |
| **15. Golau Llwybr Troed Brongest** | Llythr wedi derbyn oddi wrth BT i ddweud bod ddim hawl rhoi goleuni ar eu hasedau mwyach. Targed i roi golau newydd mewn cyn y Nadolig, ond yn dibynnu ar y pŵer trydanol sydd ar gael | | |
| **16. Adolygiad Swydd y Clerc** | Mae adolygiad swyddogol wedi gwneud, ac mae targedau swydd wedi sefydlu. Bydd cyfarfod arall i'w cynnal mewn 3 mis.<br><br>Cynigwyd y Cyng Mark Davies bod 20 awr yn dderbyniol fel swm o oriau sydd angen ar gyfartaledd i | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | wneud y swydd. Cyng Maldwyn wedi eilio'r cynnig | | |
| **17. Eisteddfod Genedlaethol** | Bydd Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal yng Ngheredigion yn y flwyddyn 2020. Mae angen i ardal Cyngor Cymuned Troedyraur godi £5000.00 tuag at yr achos. Cyfarfod Cyhoeddus i'w cynnal i drafod Apêl Troedyraur am 7:30 yn Nhafarn Ffostrasol ar nos Lun 26ain Tachwedd | | |
| **18. Eitemau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf** | Safle We – Tudalen Argyfwng<br>Ffurflen Gais Praesept<br>Polisi Iaith<br>Eisteddfod Genedlaethol<br>Trosolwg Ariannol | Clerc | 18-10-18 |
| **19. Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf** | 4yd o Ragfyr yn Neuadd Ffostrasol am 7.30 y.h. | | |

Llofnod (Cadeirydd) ______________________________

Llofnod (Is-Gadeirydd) ______________________________

Drafft